

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Y Llechan, Tal y Bont
ar nos Iau 13 Rhagfyr, 2018 am 1800**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

Y Cynghorydd Megan Tomos

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Evan Jones.

2.Ymddiheuriadau- dim. Pawb yn bresennol.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd, 2018.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'- wedi cael ymateb gan Gyngor Gwynedd bydd y gwaith yma yn cael ei wneud o leiaf yn flynyddol.

Yr hen A5 - problem gyda goryrru ar y ffordd sydd yn ardal 30mya. Wedi cael ymateb gan yr Heddlu yn holi am fwy o wybodaeth ar y mater ac eu bod yn fodlon monitro'r safle.

Eglwys Llan - Tad Matthews yn disgwyl ail ymweliad gan gwmni i gael amcan bris er mwyn i'r pwyllgor Eglwysig wneud penderfyniad dros atgyweirio'r difrod. Dim diweddariad hyd yn hyn.

Crymlyn, Aber - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Y wal dal i ddisgwyl cael sylw, a'r ffordd angen ei lanhau.

Noson wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen – yr aelodau yn awyddus i gyfrannu tuag at y noson flwyddyn nesaf. Ymateb wedi dod gan yr ysgol, bydd angen cysylltu eto yn y gwanwyn i drafod ymhellach.

Digwyddiad Cludiant Cymunedol – yn dilyn y digwyddiad trafodwyd syniadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth presennol yn yr ardal. . Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am y posibilrwydd o gael Bws 6 o Mynydd Llandygai i ddargyfeirio heibio Bryn/Llandygai a Thal y Bont, ar gyfer un neu ddau o siwrnai yn ystod y dydd.

Lôn Goed – y ffos ar hyd y ffordd angen sylw. Cyngor Gwynedd am drefnu archwiliad o'r safle a chodi archeb ar gyfer unrhyw waith angenrheidiol. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Gwrychoedd ar hyd ffordd Coetmor – gwrychoedd ar hyd y ffordd ger fynwent Coetmor angen eu torri. Cyngor Gwynedd i archwilio'r cloddiau a chysylltu gyda'r tir berchnogion ynglŷn ag unrhyw dyfiant sydd angen ei docio yn ôl.

Digwyddiad- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar y 30 Tachwedd 2018 – penderfynwyd y bydd y Clerc yn mynychu. Wedi ei ohurio tan 11 Ionawr 2019.

Airfields of Britain Conservation Trust - y plac coffa wedi cyrraedd Fferm Glanmôr. Y Clerc i holi adeiladwyr am bris i'w osod.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Neuadd Talgai (llogi'r neuadd-Tachwedd) £25.00

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd- e-bost gan Llyr Gruffydd AC Plaid Cymru-holiadur ynglŷn a bodlonrwydd y Cyngor gyda'r Archwilwyr Allanol. Y Clerc i'w gwblhau.

Cyflwynwyd – e-bost gan Swyddfa Archwilio Cymru- hysbysiad bod yr archwiliad wedi ei amodi. Trafodwyd yr holl bwyntiau oedd wedi eu codi.

Cyflwynwyd – llythyr gan Nia Llwyd, Tal y bont ynglŷn a sŵn oddi ar yr A55. Y Clerc i ymateb i'r llythyr.

Cyflwynwyd- e-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri - ymateb i'n sylwadau ar y cais cynllunio yn Fferm y Gell.

Cyflwynwyd – llythyr gan Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon- cais am lythyr o gefnogaeth gan eu bod wedi gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i Gaernarfon yn 2021. Y Cyngor yn hapus i gefnogi, ond bod angen ffafrio cwmnïau/contractwyr lleol ar gyfer gosod y safle.

Cyflwynwyd – e-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri – ymateb i'n cwynion am 'scramblers' ar y mynydd yn dychryn defaid ac yn creu llanast. Penderfynwyd bydd y Cyng. Kevin Williams yn trafod y mater ymhellach gyda'r Parc.

Cyflwynwyd – e-bost gan Cyngor Gwynedd-ymgyngoriad ar Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd – e-bost gan Cylich yr Iaith parthed ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gefnogi cynnwys y llythyr ac am lythyru'r bobl penodol.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen- pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig i'w diweddarau ar brosiectau'r Bartneriaeth. Adroddwyd hefyd bod Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol wedi ei gynnal 6 Rhagfyr 2018, gyda'r Cyngor. Geraint Hughes a Kevin Williams yn bresennol ar ran y Cyngor.

Gwrandawriad Cyfoeth Naturiol Cymru – cafwyd adroddiad gan y Cyngor. Evan Jones bydd hyn yn digwydd ym mis Ionawr yn y Drenewydd ac bydd yn cael ei gynnal dros gyfnod o dair wythnos. Mae llefarydd wedi cael ei ddewis i siarad ar ran yr holl fudiadau sydd yn erbyn polisïau arfaethedig CNC, fydd yn amddiffyn yr afon a'r pysgod.

Cyfarfod i drafod band eang yn yr ardal – y Cyngor. Wyn Bowen Harris wedi mynychu'r cyfarfod oedd wedi ei drefnu gan Sian Gwennlian i drafod diffyg cysylltiad band eang cyflym yn yr ardal.

Is-bwyllgor Mynydd – adroddwyd bod y Cyngor wedi anfon Datganiad Tyst i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynglŷn a'r mater gorborel ar y mynydd.

8. Penderfyniadau Cynllunio:

NP3/21/47F

Fferm y Gell, Llanllechid

Adeiladu sied wartheg

Penderfyniad- Caniatawyd gydag amodau (cynlluniau diwygiedig)

Ceisiadau Cynllunio:

C18/1031/21/CT

St Llechid Church, Llanllechid

Torri a thocio coed o fewn ardal gadwraeth

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

9. Materion Brys

Allt Ty'n Hendre – twll mawr yn y ffordd, pryderon bydd rhywun yn mynd i'r ffos wrth droio osgoi'r twll.

Lôn o Llanllechid sy'n arwain at Bronydd Isaf – tyllau mawr yn y ffordd yma a llawer o fwd.

Ffordd wrth Wern Bach – twll wedi ymddangos yn y lôn unwaith eto.